YMGYRCH TREFTADAETH CYMRU
OPERATION HERITAGE CYMRU

Cadw

# CYLCHLYTHYR CHWE-MISOL

## 2025 | RHIFYN Y GAEAF



2877_01

CYFLWYNIAD ..................................................................................................... 4

WYTHNOS YMWYBYDDIAETH TROSEDDAU TREFTADAETH (30 MEHEFIN – 6 GORFFENNAF) ..................................................................................................... 5

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG – GWARCHOD TREFTADAETH..................................................................................................... 7

DIOGELU GORFFENNOL CYMRU – Y FRWYDR YN ERBYN DWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS ..................................................... 8

CRIMEWATCH LIVE – SBOTOLAU AR DDWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS ........................................................................ 10

DIFROD I ADEILADAU HANESYDDOL A SAFLEOEDD TREFTADAETH LEDLED CYMRU, WEDI'I AMLYGU GAN CADW ................................................................. 11

GORFODI MEWN ACHOSION O DDWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS - TŶ HAROLD ........................................................................... 12

ASTUDIAETH ACHOS GWAITH PARTNERIAETH – GWAITH ATGYWEIRIO CYLCH CERRIG OES EFYDD GORS FAWR ......................................................... 13

CAPELI AC EGLWYSI CYMRU YN CAEL EU TARGEDU GAN DROSEDDWYR. 16

HEDDLU DE CYMRU – HYFFORDDIANT TROSEDDAU TREFTADAETH ........... 17

HEDDLU GOGLEDD CYMRU – DULL NEWYDD AR GYFER OLRHAIN TROSEDDAU TREFTADAETH ......................................................................... 17

SWYDD GWIRFODDOLWR TROSEDDAU TREFTADAETH YN EHANGU........... 18

LLADRADAU AMGUEDDFA – CYNGOR ATAL TROSEDDAU............................. 18

GORFODI TROSEDDAU TREFTADAETH – CANLYNIAD CADARNHAOL.......... 19

# CYFLWYNIAD

### Croeso Cynnes i Ail Rifyn Cylchlythyr Ymgyrch Treftadaeth Cymru

Mae 2025 yn gam sylweddol arall ymlaen o ran mynd i'r afael â throseddau treftadaeth yng Nghymru, ar ôl eu cynnwys fel blaenoriaeth graidd yn *Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru 2025-2028*.

Mae hwn yn ddatblygiad eithriadol o gadarnhaol i unrhyw un sy'n cymryd rhan yn Ymgyrch Treftadaeth Cymru ac mae'n glod i ymroddiad yr heddlu a phartner asiantaethau yn gweithio i ddiogelu ein hamgylchedd hanesyddol.

**Fel y nodir yn y strategaeth:**

*"Fel blaenoriaeth graidd newydd, bydd y grŵp yn gweithio i fynd i'r afael â throseddau yn ymwneud â threftadaeth yng Nghymru gan ganolbwyntio ar atal difrod i safleoedd treftadaeth drwy drefniadau cydweithio rhwng yr heddlu, asiantaethau partner a Cadw. Mae cynyddu gwybodaeth swyddogion yr heddlu yn allweddol yn ogystal ag addysgu'r cyhoedd ar amddiffyn ein treftadaeth."*

(*Ffynhonnell: Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru 2025-2028*)

Mae'r strategaeth lawn ar gael yma:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-09/strategaeth-troseddau-bywyd-gwyllt-chefn-gwlad-2025-2028.pdf



# WYTHNOS YMWYBYDDIAETH TROSEDDAU TREFTADAETH (30 MEHEFIN – 6 GORFFENNAF)

Ym mis Gorffennaf, daeth heddlu a phartneriaid ledled Cymru ynghyd ar gyfer **Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Treftadaeth**, sef ail flwyddyn y fenter genedlaethol bwysig hon.

Mae’r wythnos yn cynnig cyfle gwych i daflu goleuni ar droseddau treftadaeth, ag amrywiaeth o weithgareddau yn canolbwyntio ar annog ymgysylltiad â’r cyhoedd.

Ledled Cymru, trefnodd swyddogion sawl digwyddiad dros dro.

Er enghraifft, yn ardal Heddlu Gwent, cafodd y Tîm Troseddau Gwledig eu croesawu’n garedig gan **Cadw** i safleoedd hanesyddol gan gynnwys **Amffitheatr Rufeinig Caerllion** a **Baddonau’r Gaer Rufeinig**.

Aeth y tîm i **Ŵyl Ganoloesol Sir Fynwy**, gan drwytho eu hunain yn ei gwersyll hanes byw hynod ddiddorol, a oedd yn cynnig portread byw o fywyd yn y 12fed ganrif.




***Mae’r llun yn dangos digwyddiad Troseddau Treftadaeth Dros Dro yng Ngŵyl Ganoloesol Sir Fynwy, Haf 2025***




*Roedd arddangosfa o arteffactau hanesyddol lleol a gwahanol daflenni cyngor ar gael i ymwelwyr mewn digwyddiadau. Roedd swyddogion yn gallu ateb unrhyw ymholiadau am droseddau treftadaeth a chynnig cyngor ar sut i hysbysu am broblemau.*



*Arweiniodd yr wythnos hefyd at rai cyfleoedd gwych i'r Heddlu ymgysylltu â gwahanol grwpiau ail-greu a'r rhai ag angerdd at hanes.*

# PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG – GWARCHOD TREFTADAETH

Efallai y bydd ymwelwyd â **Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** wedi sylwi ar gyflwyniad arwyddion **Gwarchod Treftadaeth** mewn lleoliadau allweddol yr haf hwn.

Lleolwyd yr arwyddion hyn ger asedau hanesyddol nad ydynt wedi'u nodi fel arall i helpu ymwelwyr i gydnabod eu harwyddocâd diwylliannol a hanesyddol.

Nod y fenter yw:

- Cynyddu parch a dealltwriaeth o'r dirwedd
- Lleihau ymddygiadau niweidiol
- Annog pobl i hysbysu am ddigwyddiadau troseddau treftadaeth posibl




***Arwydd Gwarchod Treftadaeth newydd (uchod), New Heritage Watch sign (above), ar batrôl ym mryngaer anghysbell Twyn y Gaer (isod)***

# DIOGELU GORFFENNOL CYMRU – Y FRWYDR YN ERBYN DWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS



Mae codi ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth yn dal i fod yn amcan allweddol i fenter **Ymgyrch Treftadaeth Cymru**.

Ym mis Awst, tynnodd **stori newyddion arbennig BBC Wales** sylw at broblem gynyddol **dwyn o safleoedd archaeolegol gyda'r nos** yng Nghymru. Rhoddodd y sylw hwn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, â thro o'n partner asiantaethau – **Cadw**, **Amgueddfa Genedlaethol Cymru**, a **Heddlu Gwent** – i gyd yn cyfrannu at y darn.

Fe wnaeth yr adroddiad gynnig cipolwg gwirioneddol ar y difrod a achoswyd i safleoedd hanesyddol ar heriau a wynebir wrth fynd i'r afael â'r drosedd hon. Dangosodd hefyd **batrôl Gwarchod Treftadaeth** a rhywfaint o'r dechnoleg ddiweddaraf sy'n cael ei defnyddio gan Dimau Troseddau Gwledig ledled Cymru.

Gallwch ddarllen yr erthygl lawn yma: [Dwyn trysorau hanesyddol yn anghyfreithlon yn 'cael effaith ar dreftadaeth' – Cymru Fyw]



*Tîm newyddion y BBC yn ffilmio ym Mryngaer Coed Llanmelin, yn ystod patrôl fin nos gyda swyddogion Tîm Troseddau Gwledig Gwent.*

# CRIMEWATCH LIVE – SBOTOLAU AR DDWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS

Ym mis Hydref, fe wnaeth **Crimewatch Live** droi ei sylw at broblem **dwyn o safleoedd archaeolegol gyda'r nos**, ar ôl i gynhyrchwyr y rhaglen gysylltu â Heddlu Gwent.

Fe wnaeth y rhaglen hirsefydlog hon, a ddarlledir i gynulleidfa genedlaethol, gynnig llwyfan ardderchog i godi ymwybyddiaeth o'r drosedd hon. Nod y stori oedd annog cydnabyddiaeth ehangach o ddigwyddiadau dwyn o safleoedd archaeolegol gyda'r nos, eu heffaith bosibl, a phwysigrwydd hysbysu amdanynt.

O soffa stiwdio Crimewatch, siaradodd y cyflwynwyr **Rav Wilding** a **Steph McGovern** yn fyw â'r **Cwnstabl Dan Counsell**, Swyddog Cyswllt Troseddau Treftadaeth Heddlu Gwent, am y broblem a rhywfaint o'r offer arbenigol sy'n cael eu defnyddio gan unedau'r heddlu i fynd i'r afael â hi.

I ddod â'r drafodaeth yn fyw, roedd y Gwirfoddolwr Gwasanaeth Heddlu Troseddau Treftadaeth a'r Archaeolegydd **Kate Churchill** yn ddigon caredig i lunio casgliad o arteffactau hanesyddol nodweddiadol a ddarganfyddir gan synwyryddion metel – gan gynnwys darnau arian, pennau bwyeill, arfau rhyfel hysbyddedig, botymau, byclau, a hynodbethau metelaidd eraill.




***Ar y set yn stiwdio BBC CrimeWatch, yn paratoi i fynd ar yr awyr.***

# DIFROD I ADEILADAU HANESYDDOL A SAFLEOEDD TREFTADAETH LEDLED CYMRU, WEDI'I AMLYGU GAN CADW

Ym mis Medi, adroddodd Cymru Fyw y BBC ar ôl i gynnydd sy'n peri pryder i ddifrod i adeiladau rhestredig a safleoedd treftadaeth gael ei nodi gan Cadw.

Yn yr erthygl newyddion, esboniodd Dr Jonathan Berry a Dr Ffion Reynolds o Cadw, ynghyd â'r archaeolegydd Rhys Mwyn a Rob Taylor – Cydgysylltydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru sut roedd sawl digwyddiad o bwys wedi codi.

Rhoddwyd enghreifftiau ar draws holl ardaloedd Heddlu Cymru yn yr erthygl. -

**Ardal Heddlu De Cymru** – Cyfres ddiweddar o ddigwyddiadau o ddifrod troseddol yn Abaty Nedd hanesyddol. Achosion o arwyddion newydd yn cael eu difrodi, glaswellt yn cael ei rwygo'n ddarnau a rhannau o'r safle yn cael eu defnyddio fel trac beicio, ffenestri yn cael eu torri ac arddangosiad yn cael ei ddifrodi.

**Ardal Heddlu Gwent** – Dioddefodd tŷ bwrw Gwaith Haearn hanesyddol Blaenafon, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Blaenafon, ddigwyddiadau gan gynnwys lladrad o blwm o do a difrod i arddangosfa, a arweiniodd at gau'r safleoedd i'r cyhoedd dros dro.

**Ardal Heddlu Dyfed-Powys** – Peintiwyd graffiti ar waith cerrig canoloesol y gladdgell yn Llys yr Esgob Tyddewi.

**Ardal Heddlu Gogledd Cymru** – Dioddefodd bedd cyntedd Bryn Celli Ddu ar Ynys Môn, un o'r safleoedd neolithig mwyaf adnabyddus yng Nghymru, yn dyddio'n ôl 5,000 o flynyddoedd, graffiti a difrod i'r cerrig siambr mewnol yn ddiweddar. Peintiwyd mwy na 40 o farciau y tu mewn i'r cyntedd a'r bedd, gan gynnwys olion bysedd, olion dwylo, siapiau diemwnt, cylchoedd, a symbolau mawr ar y linteli mewnol.

Mae erthygl y BBC ar gael i'w darllen yma:

['Diffyg parch' - pryder am ddifrod troseddol i safleoedd hanesyddol - Cymru Fyw]

# GORFODI MEWN ACHOSION O DDWYN O SAFLEOEDD ARCHAEOLEGOL GYDA'R NOS - TŶ HAROLD

Ym mis Awst, am y **tro cyntaf yn y DU**, fe wnaeth heddlu arfer pwerau newydd o dan **Adran 60 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023** pan ddaliwyd dau o droseddwyr yn dwyn o safleoedd archaeolegol gyda'r nos yn **Heneb Gofrestredig Tŷ Harold (MM029)** ym Mhorthysgewin.

Dechreuodd y digwyddiad pan gysylltodd un o'r trigolion lleol â **Heddlu Gwent** i hysbysu am unigolion yn defnyddio synwyryddion metel ar y safle hanesyddol. Diolch i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth mewnol diweddar a phrosesau a gyflwynwyd o dan **Ymgyrch Treftadaeth Cymru**, fe wnaeth yr atebwr galwadau nodi hon fel trosedd dreftadaeth bosibl.

Anfonwyd swyddogion o **Dîm Troseddau Gwledig Heddlu Gwent** ac fe wnaethant ddal y troseddwyr **yn y weithred**, yn dal i ddefnyddio'r synwyryddion ac-yn hollbwysig-cyn i unrhyw bethau a ddarganfuwyd gael eu symud. Gan ddefnyddio **cronfa ddata ar-lein Cof-Cymru** a ddarperir gan **Cadw**, cadarnhaodd swyddogion bod y gweithredoedd yn digwydd o fewn ffin yr heneb gofrestredig sydd wedi'i diogelu gan y gyfraith.

Ymdriniwyd â'r troseddwyr mewn gorsaf heddlu wedyn, trwy **ddatrysiad y tu allan i'r llys ffurfiol**.



***Mae'r llun yn dangos offer synhwyro metel y daliwyd troseddwyr yn eu defnyddio i chwilio am arteffactau ar Heneb Gofrestredig warchodedig***

# ASTUDIAETH ACHOS GWAITH PARTNERIAETH – GWAITH ATGYWEIRIO CYLCH CERRIG OES EFYDD GORS FAWR

Ym mis Mehefin 2025, fe wnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ddarganfod fod yr heneb gofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol, Cylch Cerrig Gors Fawr, wedi dioddef aflonyddu ar y ddaear. Aflonyddwyd ar dyweirch a phridd o gwmpas 13 o'r cerrig ac roedd mwy o aflonyddu ar y ddaear wedi digwydd yn ardal ganolog yr heneb.





***Mae'r llun ar y chwith yn dangos lle'r oedd tyweirch a phridd wedi cael eu symud o un o'r meini hirion. Mae'r llun ar y dde yn dangos Heddlu Dyfed-Powys a Warden Henebion Maes Cadw yn asesu'r difrod.***

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng partneriaeth Ymgyrch Treftadaeth Cymru: Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cadw a Heddlu Dyfed-Powys i drafod y digwyddiad. Cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i wneud gwaith atgyweirio'r ddaear yn yr heneb, a chafodd mwy o batrolau wedi'u targedu ac arwyddion atal eu rhoi ar waith ar unwaith i atal digwyddiadau pellach.


Ym mis Medi 2025, o dan gydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw, cyflawnwyd y gwaith atgyweirio gan archaeolegydd cymunedol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, parcmon ardal a gwirfoddolwyr. Cliriwyd eithin yn y dirwedd gyfagos ar sail ddetholedig hefyd, gan wneud y safle yn fwy amlwg o ymyl y ffordd i atal difrod pellach hefyd. Mae'r safle bellach yn cael ei fonitro'n agos drwy Gwarchod Treftadaeth gan staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gwirfoddolwyr a Heddlu Dyfed-Powys.




*Lluniau o faen hir cyn gwaith atgyweirio (chwith) ac ar ôl cyflawni gwaith mewnlenwi (dde).*




*Lluniau o dyweirch a phridd yn cael eu torri yn y dirwedd ehangach i gael eu defnyddio i fewnlenwi'r ddaear yr aflonyddwyd arno (chwith) a gwirfoddolwyr yn clirio eithin yn y dirwedd gyfagos (dde).*



***Mae drôn yn tynnu llun o'r cylch cerrig o'r awyr yn dilyn gwaith atgyweirio. Dynodir gwaith mewnlenwi'r ddaear gan y lliw tywyllach o gwmpas y meini hirion a'r ardal o fewn y cylch cerrig.***

# CAPELI AC EGLWYSI CYMRU YN CAEL EU TARGEDU GAN DROSEDDWYR

Yng **nghyfarfod rhanddeiliaid Ymgyrch Treftadaeth Cymru yn yr hydref**, codwyd pryderon ynghylch cyfres o ddigwyddiadau lle targedwyd capeli ac eglwysi drwy gydol 2025.

Tynnodd **Swyddog Cyswllt Troseddau Treftadaeth Heddlu Dyfed-Powys, Gary Gwilt,** sylw at sawl achos sy’n peri pryder arbennig:

- **Chwefror/Mawrth** – Tri lladrad o gapeli ac eglwysi yn ardal **Llandrindod** (targedwyd un ddwywaith), wrth i eitemau fel Beiblau, fasys, brethynnau a chroesau pren gael eu dwyn.
- **Hydref/Tachwedd** – Un lladrad o eglwys a dau achos o ddwyn o eglwys, gan gynnwys dwyn setiau cymundeb.
- **Parhaus** – Targedu gwaith cerrig ar dir capeli ac eglwysi, â cherrig capio waliau yn cael eu tynnu. Mewn un achos, difrodwyd bedd pan gymerwyd ei bileri cornel. Yn ffodus, fe wnaeth **Tîm Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed-Powys** ddod o hyd i’r pileri ar ôl eu canfod wedi’u cuddio mewn man cyfagos.

Mae’r digwyddiadau hyn yn ein hatgoffa’n amlwg am bwysigrwydd diogelu ein mannau addoli hanesyddol.




***Croesawyd 20 o gapeli ac eglwysi newydd i gynllun Gwarchod Treftadaeth yng Ngwent yn unig yr haf hwn, gan roi mynediad iddynt am arwyddion atal a phecynnau marcio eiddo fforensig Smartwater AM DDIM.***

## HEDDLU DE CYMRU – HYFFORDDIANT TROSEDDAU TREFTADAETH

Ym mis Tachwedd, darparodd y **Rhingyll Louise Tew** sesiwn **Ymwybyddiaeth o Droseddau Treftadaeth** i grŵp o swyddogion cymdogaeth yn ystod eu diwrnod **Datblygiad Proffesiynol Gorfodol**.

Cynigiodd y sesiwn wybodaeth werthfawr am droseddau treftadaeth, gan archwilio'r mathau o ddigwyddiadau a'u heffeithiau posibl. Fe wnaeth swyddogion hefyd adolygu astudiaethau achos o ddau ddigwyddiad ar wahân yn cynnwys **Gwaith a Difrod Heb Awdurdod**, yr arweiniodd y ddau ohonynt at erlyniadau llwyddiannus-sy'n amlygu pwysigrwydd darganfod a gorfodi cynnar.

## HEDDLU GOGLEDD CYMRU – DULL NEWYDD AR GYFER OLRHAIN TROSEDDAU TREFTADAETH

Mae **Tîm Troseddau Gwledig Gogledd Cymru** wedi dechrau treialu dull newydd o olrhain troseddau treftadaeth yn eu systemau data heddlu. Pan fydd troseddau treftadaeth yn cael eu nodi, dynodir yn benodol mai dyna ydynt yn eu systemau bellach.

Nod y gwelliant hwn yw ei gwneud yn haws chwilio a chrynhoi data troseddau treftadaeth yn y dyfodol, gan gynorthwyo dadansoddi gwell a strategaethau atal wedi'u targedu.



***Ffenestri wedi'u torri mewn adeilad rhestredig hanesyddol – Fe'i cofnodwyd fel Difrod Troseddol ond fe'i cydnabuwyd fel Trosedd Treftadaeth***

# SWYDD GWIRFODDOLWR TROSEDDAU TREFTADAETH YN EHANGU

Yn dilyn lansiad llwyddiannus swydd **Gwirfoddolwr Gwasanaeth Heddlu Troseddau Treftadaeth** gyntaf Cymru gan **Heddlu Gwent**, rydym yn hapus iawn i gyhoeddi bod ail swydd Cymru yn cael ei chreu bellach! Y tro hwn, mae **Heddlu Dyfed-Powys** wedi cyflwyno'r swydd ac yn gobeithio croesawu eu hymgeisydd llwyddiannus yn fuan iawn.

Gan weithio ochr yn ochr â swyddogion **Tîm Troseddau Gwledig** arbenigol, mae Gwirfoddolwr Gwasanaeth Heddlu Troseddau Treftadaeth yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyflawni'r amcanion ym mhortffolio troseddau treftadaeth pob heddlu.

Mae'r swydd arloesol hon yn cynnig cyfle gwych i'r heddlu gynyddu eu dealltwriaeth o'r sector treftadaeth trwy fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth, a phrofiad gweithiwr treftadaeth proffesiynol—gan gryfhau cydweithrediad ac amddiffyniad o amgylchedd hanesyddol Cymru.

# LLADRADAU AMGUEDDFA – CYNGOR ATAL TROSEDDAU

Gan ystyried lladradau gwerth uchel diweddar o amgueddfeydd ledled Ewrop, mae **Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu** wedi datblygu **canllawiau atal troseddau penodol i amgueddfeydd**.

Mae'r cyngor hwn ar gael fel **poster neu daflen ddigidol** ac yn cynnig camau ymarferol i helpu amgueddfeydd i gryfhau eu diogelwch a diogelu casgliadau gwerthfawr.

Os hoffech ofyn am gopi, anfonwch e-bost i: ruralcrimeteam@gwent.police.uk




***Arddangosiad hynafiaethau yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Caerllion***

# GORFODI TROSEDDAU TREFTADAETH – CANLYNIAD CADARNHAOL

Sicrhawyd canlyniad gorfodi cadarnhaol yn dilyn digwyddiad o **waith heb awdurdod** yn effeithio ar heneb gofrestredig yn **ardal Powys**.

Roedd y gwaith yn cynnwys y **defnydd heb awdurdod o beiriant tyrchu mecanyddol** ar safle Rhufeinig gwarchodedig. Diolch i weithredu cyflym, **cyflwynodd Cadw hysbysiad atal**, gan atal unrhyw ddifrod pellach i'r heneb bwysig hon.

Yn dilyn ymchwiliad ar y cyd gan **Cadw** a **Heddlu Dyfed-Powys**, mabwysiadwyd **dull adferol**.

Ymdriniwyd â'r sawl a oedd yn gyfrifol trwy **Ddatrysiad Cymunedol**, sy'n ei gwneud yn ofynnol yn ffurfiol iddo gyflawni **gwaith atgyweirio** y cytunwyd arno ar ei draul ei hun, o dan oruchwyliaeth a chymeradwyaeth Cadw.

Mae'r canlyniad hwn yn dangos gwerth cydweithredu a gorfodi rhagweithiol i ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru.